

FFURFLEN RHW9

HYSBYSIAD O WAHARDDIAD POSIBL DEILIAD Y CONTRACT AR ÔL CEFNU AR Y PRIF GONTRACT A'R CONTRACT ISFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan isddeiliad i roi hysbysiad i ddeiliad y contract o dan adran 66(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr isddeiliad yn credu nad yw deiliad y contract mwyach yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract neu'r contract isfeddiannaeth.

Rhan A: Isddeiliad	Rhan B: Deiliad y Contract <i>Landlord i'r isddeiliad</i>
Enw:	Enw:
	Cyfeiriad:

Rhan C: Prif Landlord	Rhan D: Annedd
Enw:	Cyfeiriad:
Cyfeiriad:	
<i>Rhaid i'r isddeiliad roi copi o'r hysbysiad hwn i'r prif landlord.</i>	

Rhan E: Hysbysiad o Gred bod Deiliad y Contract wedi Cefnu ar y Contractau
<p>Yr wyf i, yr isddeiliad, yn rhoi hysbysiad yn unol ag adran 66(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi 2016, o'm cred nad ydych chi, ddeiliad y contract, yn ystyried mwyach eich bod yn barti i brif gontract a chontract isfeddiannaeth yr annedd uchod.</p> <p>Rhaid i chi, ddeiliad y contract, roi gwybod i mi, yr isddeiliad, yn ysgrifenedig cyn diwedd [dyddiad] os ydych yn ystyried eich bod yn barti i un o'r contractau hynny, neu i'r ddau ohonynt. Ar ôl y dyddiad hwn, caniateir i'r prif gontract gael ei derfynu a chaniateir i'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau chi, ddeiliad y contract, o dan y contract isfeddiannaeth gael eu trosglwyddo i'r prif landlord a enwir yn Rhan C.</p> <p><i>Sylwer: Rhaid i'r dyddiad a bennir fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad y contract.</i></p>

Rhan F: Llofnod	
Llofnodwyd gan yr isddeiliad:	Dyddiad:
.....